

Ein Stori Lawen

- Mynegwn ein ffydd Gristnogol yn llawen trwy ein haddoliad, ein gwasanaeth a'n cymdeithas mewn awyrgylch sy'n groesawgar, gofalgarg a theuluol ei naws.
- Yr ydym yn meithrin ein plant a'n pobl ifanc trwy weithgareddau'r Ysgol Sul a'r gwasanaethau teuluol, a thrwy ein gwasanaethau litwrgaidd, y geiriau a'r gerddoriaeth cawn ein hysbrydoli i addoli a gwasanaethu'r Duw byw.
- Yr ydym yn falch o annog a chefnogi dysgwyr y Gymraeg.
- Mae croeso ac mae lle yn yr eglwys hon i bawb sydd am ystyried neu ailgydio yn eu ffydd neu sy'n chwilio am gartref ysbrydol.

Os am ragor o wybodaeth am Eglwys Dewi Sant:

Ficer/Vicar: Y Parchedig Ganon Dyfrig C. Lloyd

Rhif Ffôn: 029 2056 6001

E-bost: dyfriglloyd@hotmail.com

Curad / Curate: Y Parchedig Athro Lloyd Llewellyn-Jones

Y Wardeniaid/Churchwardens:

Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328

E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com

Delyth Davies – Ffôn: 077 61 118722

E-bost: delyth.d@yahoo.com

Cyfarwyddwr Cerdd:

Ieuan Jones, B. Mus - Ffôn: 074 29 012781

E-bost: ieuanjones@hotmail.co.uk

Trysorydd:

Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328

E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com

Ysgrifennydd Cymorth Rhodd:

Graham Carson - Ffôn: 07712387203

Ysgrifennydd Cyngor Plwyf:

Marian Fairclough - Ffôn: 07579763030

E-bost: faircloughmarian@gmail.com

EGLWYS DEWI SANT

www.eglwysdewisant.org.uk

CROESO i bawb sydd yn ymweld â'r eglwys heddiw. Cofiwch ymuno â ni am baned a sgwrs yn y neuadd ar ôl y gwasanaeth.

18 Hydref 2026

Gŵyl Luc, yr Efengylwr

8.00am Y Cymun Bendigaid

Darllenwydd: Wyn Mears

10.30am Y Cymun Bendigaid ar gân ac Ysgol Sul

Darllenwyr: Siwan Seaman / Rhys Davies

Emynau: 231 (Beverley); 291 (Camberwell 350); 174 (Gwalchmai); 135 (Arnsberg)

6.00pm Yr Hwyl Weddi a Phregeth

Salm: 103:1-12

Darlleniadau: Ecclesiasticus 38:1-14

Colosiaid 4:7-18

Darllenwyr: Beti Davies / Gwynn Matthews

Emynau: 367 (Darwell's 148th); 198 (Beverley 112); 235 (Penmaen)

YN EIN GWEDDIAU

Cofiwch yn ein gweddïau y cleifion: Dilys Hicks, Eleri Hughes, Gwenda Williams ac am bawb sy'n gofalu amdanynt.

Gweddïwn hefyd dros bawb a fu farw yn nhangnefedd Crist a thros bawb y cofiwn am eu marwolaeth yr adeg hon o'r flwyddyn. Dyro

Yn yr Eglwys:

Nos Fawrth 20 Hydref 2026

6.00pm Ymarfer Côr

Dydd Mercher 21 Hydref 2026

10.30am Y Cymun Bendigaid

Dydd Sul 25 Hydref 2026

Sul y Beibl

10.30am Y Foreol Weddi a Phregeth

6.00pm Y Cymun Bendigaid

iddynt, O Arglwydd, orffwys tragwyddol a llewyrched goleuni gwastadol arnynt.

Am ragor o wybodaeth mynnwch air â Rhys Jones.

YR YSGOL SUL

Bydd yr Ysgol Sul yn cwrdd yn ystod y gwasanaeth 10.30am heddiw.

DIOLCHGARWCH AM Y CYNHAEAF

Cafwyd gwasanaeth diolchgarwch bendithiol iawn y Sul diwethaf, gyda'r eglwys wedi'i haddurno'n hardd ac yn dymhoraidd iawn ar gyfer yr achlysur. Roedd naws hyfryd o ddiolchgarwch yn perthyn i'r gwasanaeth ac fe draddododd yr Hybarch Matthew Hill, Archddiacon Caerfyrddin, bregeth ar oferedd adeiladu 'ysguboriau mwy'. Ar ôl y gwasanaeth cafwyd cinio blasus yn y neuadd gyda digon o fwyd, a chyfle am gymdeithas braf. Diolch i bawb a oedd wedi cyfrannu mewn amrywiol ffyrdd: naill ai yn y gwaith o addurno'r eglwys, paratoi a gweini'r bwyd, golchi llestri ayb, a gwneud ein diolchgarwch eleni mor hardd a bendithiol. *Y Ficer*

CLOCH DEWI

Mae rhifyn newydd o Golch Dewi, cylchgrawn yr eglwys, yn cael ei ddosbarthu heddiw. Mynnwch eich copi cyn gadael yr eglwys.

EGLWYS DEWI SANT YN DATHLU 70

Ar Wyl yr Holl Saint eleni, sy'n syrthio ar y Sul, bydd Eglwys Dewi Sant yn nodi carreg filltir yn ei hanes. 70 mlynedd i'r diwrnod hwnnw symudodd Eglwys Dewi Sant i mewn i'r adeilad presennol yng Nghilgiant Sant Andreas a'i alw'n gartref. (I gael yr hanes yn llawn darllenwch fy llythyr yn y rhifyn cyfredol o Cloch Dewi). Byddwn yn nodi'r achlysur fore **Sul 1 Tachwedd yn ein gwasanaeth 10.30am** gyda Chôr yr eglwys yn canu anthem. Dyma gyfle i ni ddiolch am yr hyn a fu, am ein heglwys heddiw, a gweddïo dros Eglwys Dewi Sant y dyfodol. *Y Ficer*.

GWYLIAU

Mae'r ficer i ffwrdd ar ei wyliau tan ddydd Iau 29 Hydref. Os oes unrhyw beth yn codi, neu os oes angen offeiriad a fydddech gystal â chysylltu ag un o'r wardeniaid os gwelwch yn dda.

ALLWEDD AR GYFER LLAIN PARCIO EDS 2026 - 2027

Os hoffech adnewyddu eich allwedd parcio neu archebu allwedd o'r newydd y gost yw £100.

PWYSIG: Bydd angen i chi dderbyn allwedd newydd oherwydd bydd rhaid i ni newid y holl gloeon. Yn anffodus, mae'r gwaith o newid y gloeon yn cymryd ychydig yn hirach na'r disgwyl.

GWARCHOD YR EGLWYS

Tracey Chudley a Alison Stone fydd ar ddyletswydd dydd Mercher 21 Hydref.

GWEDDÏAU'R SUL

- Eglwys Anglicanaidd Canada
- Ardal Gweinidogaeth De Morgannwg, y Parchedig Andrew James, arweinydd

Darlleniadau a Gwyliau

Dydd Llun 19 Hydref: Henry Martyn

Effesiaid 2:1-10; Salm 100; Luc 12:13-21

Gweddïwn: Esgobaeth Calcutta – Eglwys Unedig Gogledd India

Ardal Gweinidogaeth Penarth, y Parchedig Philip Maudsley, arweinydd

Dydd Mawrth 20 Hydref:

Effesiaid 2:11-22; Salm 85:8-13; Luc 12:35-38

Gweddïwn dros: Esgobaeth Caledonia, Eglwys Anglicanaidd Canada

Deoniaeth Ystradyfodwg, y Deon Bro, y Parchedig Ganon Sarah Rogers

Dydd Mercher 21 Hydref:

Effesiaid 3:4-12; Salm 113; Luc 12:39-48

Gweddïwn dros: Esgobaeth Calgary – Eglwys Anglicanaidd Canada

Ardal Gweinidogaeth De Cwm Cynon, y Parchedig Matthew Gibbon, arweinydd

Dydd Iau 22 Hydref:

Effesiaid 3:14-21; Salm 33:1-12; Luc 12:49-53

Gweddïwn dros: Esgobaeth California – Eglwys Esgobol Unol Daleithiau America

Ardal Gweinidogaeth Cwm Cynon Uchaf, y Parchedig Hywel Snook, arweinydd

Dydd Gwener 23 Hydref: Iago o Jerwsalem

Effesiaid 4:1-6; Salm 24:1-6; Luc 12:54-59

Gweddïwn dros: Esgobaeth Gogledd California, Eglwys Esgobol Unol Daleithiau America

Ardal Gweinidogaeth Pontypridd, y Parchedig Charlotte Rushton, arweinydd

Dydd Sadwrn 24 Hydref:

Effesiaid 4:7-16; Salm 122; Luc 13:1-9

Gweddïwn dros: Esgobaeth Cameroon – Eglwys Anglicanaidd Gorllewin Affrica

Deoniaeth Pen-y-bont ar Ogwr, y Parchedig Simon Freeman, Deon Bro